

CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU DOGFEN YMGYNGHORI

YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GREU CANOLFAN
ADNODDAU ARBENIGOL CYFRWNG CYMRAEG
YN YSGOL GWAUN Y NANT O FIS MEDI 2024.



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille. Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 er mwyn trefnu hyn.

TABL CYNNWYS

Eglurhad ar dermau.....	4
1. Cyflwyniad.....	1
1.1. Cefndir	1
1.2. Y cynnig.....	1
1.3. Ymateb i'r cynnig	1
2. Y Cynnig.....	2
2.1. Summary	Error! Bookmark not defined.
2.2. Beth y byddai hyn yn ei olygu?	2
2.3. Pam rydyn ni'n Cynnig y Newidiadau?.....	3
3. Goblygiadau'r Cynnig.....	4
3.1. Gwybodaeth am yr Ysgol.....	4
3.2. Canlyniadau addysgol.....	4
Safonau a chynnydd	4
Llesiant ac agweddau at ddysgu.....	5
Profiadau dysgu ac addysgu.....	5
Gofal, cymorth ac arweiniad	6
Arwain a rheoli	6
3.3. Darpariaeth Gymraeg	6
3.4. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).....	7
3.5. Meini prawf Mynediad y Ganolfan Adnoddau Cyfrwng Cymraeg.....	7
1.1. Effaith ar ysgolion eraill.....	10
1.2. Trefniadau DERBYN.....	10
1.3. Tir ac Adeiladau	10
1.4. Cyllid	11
Cyllid Cyfalaf.....	11
Cyllid Refeniw	11
1.5. Adnoddau Dynol	11
1.6. Trafnidiaeth a threfniadau teithio i ddysgwyr.....	12
2. Ystyriaethau Eraill	13
2.1. Manteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r status quo.....	13
2.2. Anfanteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r status quo	13
2.3. Risgiau posibl y cynnig hwn a mesurau i liniaru'r risgiau a nodwyd.....	13
2.4. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	14

2.5.	Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.....	14
2.6.	Cyfraniadau i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.....	16
2.7.	Dewisiadau Amgen Eraill a Ystyriwyd.....	16
	Opswn 1: Peidio a chreu CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL a pharhau i ddarparu CYMORTH I DDISGYBLION YN EU HYSGOL GARTREF.	16
	Opswn 2: Sefydlu CAA mewn ysgol arall ym Mro Morgannwg.	16
3.	Y Broses Ymgynghori Statudol	17
3.1.	Dyddiadau Allweddol	18
4.	Cwestiynau Cyffredin	20
5.	Cynnwys Rhanddeiliaid ac Ymateb i'r Ymgynghoriad	21
5.1.	Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad	23
5.2.	Sut Gallwch Ganfod Mwy a Rhannu eich Barn	23
	Mwy o wybodaeth.....	23
	Rhowch eich barn i ni.....	23
6.	Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad.....	25
7.	Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg.....	30

EGLURHAD AR DERMAU

'ND' (Nifer Derbyn) – rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

'ADY' (Anghenion Dysgu Ychwanegol) - Mae gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

'Capasiti' - Capasiti ysgol yw cyfanswm nifer y lleoedd i ddisgyblion oed statudol sydd ar gael; nid yw'n cynnwys lleoedd meithrin.

'Dalgyllch' - Yr ardal ddaearyddol y mae'n rhaid byw ynddi er mwyn mynychu'r ysgol leol. Bydd plant dalgyllch bob amser yn cael blaenoriaeth dros geisiadau o'r tu allan i'r dalgyllch ond nid oes sicrwydd y bydd unrhyw blentyn yn cael ei dderbyn i'w ddewis ysgol.

'Cymuned' - Math o ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae'r awdurdod addysg lleol yn cyflogi staff yr ysgol, yn gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol, ac yn berchen ar ystâd yr ysgol.

'Enwadol' - Ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig e.e. yr Eglwys yng Nghymru.

'DC' (Deddf Cydraddoldeb) - Mae'r Ddeddf yn ymdrin â phob agwedd ar fywyd ysgol sy'n ymwneud â sut mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, gweithwyr ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bobeth y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, heb wahaniaethu, a heb roi unigolion neu grwpiau o bobl dan anfantais. Yn benodol, ni ddylai ysgol wahaniaethu, aflonyddu nac erlid disgybl neu ddarpar ddisgybl o ran y canlynol: derbyn i'r ysgol, y ffordd y mae'n darparu addysg i ddisgyblion, sut mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at unrhyw fuddion, cyfleuster, neu wasanaeth, a pheidio â chynnwys disgybl neu ei roi dan unrhyw anfantais arall.

'AEG' (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) - proses yw AEG sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchoddedig.

'CS' (Cyfrwng Saesneg) – Ysgol lle mae'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.

'ALI' (Awdurdod Lleol) - Yn y ddogfen hon, Cyngor Bro Morgannwg yw'r Awdurdod Lleol oni nodir yn wahanol.

'NAG' (Nifer ar y Gofrestr) - Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol. Nid yw hynny'n cynnwys lleoedd yn y dosbarth meithrin.

'CYBLD' (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae ysgolion yn casglu gwybodaeth wedi'i dilysu ac yn ei hanfon i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion wedi'u cofrestru ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig a mamiaith.

'GY' (Gweithredu Ysgol) - Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl ADY, bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol.

'GY+' (Gweithredu Ysgol +) - Dyma pan fydd arbenigwyr allanol yn darparu cyngor neu gymorth i athrawon dosbarth neu bwnc a'r Cydlynnydd ADY, fel y gellir rhoi ymyriadau amgen ychwanegol neu wahanol i'r rhai a ddarperir i'r disgybl drwy GY yn eu lle.

'Adran 106' - Gofynnir am gyfraniad Adran 106 gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn adeiladu datblygiad tai, tuag at gostau darparu seilwaith cymunedol a chymdeithasol, darpariaeth addysgol, offer gofod agored / chwarae, trafnidiaeth, neu ofal iechyd ar gyfer y sawl sy'n symud i mewn i'r cartrefi newydd.

'CAA' / 'GAA' (Canolfan Adnoddau Arbenigol neu y Ganolfan Adnoddau Arbenigol) - Cyfleuster yn yr ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

'Â Datganiad' - Mae gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol (AAA), a elwir hefyd yn ADY, os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu'n gyffredinol.

'CC' (Cyfrwng Cymraeg) – Ysgol lle mae'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

1. CYFLWYNIAD

1.1. CEFNDIR

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion y Fro yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Rhoddodd Cabinet y Cyngor awdurdod i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad **rhwng 10 Ebrill a 22 Mai 2024** ar gynnig i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024. Ar hyn o bryd mae darpariaeth beilot yn gweithredu yn yr ysgol er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

1.2. Y CYNNIG

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu diben y cynnig hwn i greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir ysgol, sy'n cynnwys trosglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd.

1.3. YMATEB I'R CYNNIG

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Manylir ar ragor o wybodaeth am sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad yn [Adran 7 "Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad"](#). Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys dolen i'r arolwg ar-lein a chyfeiriad post am ddim os hoffech gyflwyno ymateb drwy'r post. Gellir dod o hyd i'r ffurflen ymateb o dan [Adran 8](#).

O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'n hanfodol bod unrhyw adborth yn cael ei dderbyn yn ysgrifenedig erbyn 22 Mai 2024 er mwyn cael ei ystyried fel rhan

o'r ymgynghoriad hwn. Ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

2. Y CYNNIG

2.1. TROSOLWG

Y cynnig yw creu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Newidiadau Rheoleiddiedig i ysgol.

2.2. BETH Y BYDDAI HYN YN EI OLYGU?

Byddai'r cynnig yn creu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer disgyblion 4-11 oed. Diben y ganolfan arbenigol hon fyddai darparu cymorth i ddysgwyr unigol a chynyddu capasiti'r ysgol sy'n ei chartrefu i greu amgylchedd cwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu ei anghenion.

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (GAA) yn cynnig cyfnodau o ddarpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion y mae eu lefel uchel o orbryder yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gael mynediad at addysg prif ffrwd. Byddai'r athro arbenigol, y Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel Uwch (CALU), a'r Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu yn gweithio gyda'r gwasanaeth ymgysylltu, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr addysg, a rhieni i greu profiadau dysgu sy'n darparu ar gyfer anghenion addysg, cyfathrebu, emosiynol, cymdeithasol a synhwyraidd pob disgybl.

Gallai disgyblion fynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhan amser (2 ddiwrnod) a hefyd cael lle â chymorth yn eu hysgol brif ffrwd leol. Bydd disgyblion dosbarth derbyn i flwyddyn 2 yn mynychu'r ganolfan ar ddydd Llun a dydd Mawrth a bydd disgyblion blwyddyn 3-6 yn ei mynychu ar ddydd Iau a dydd Gwener. Ar ddydd Mercher, bydd y staff yn ymgymryd â chynllunio ac asesu a hefyd gwaith allgymorth gydag ysgolion prif ffrwd i feithrin capasiti. Byddai'r lleoliadau hyn yn galluogi disgyblion i barhau i ddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion prif ffrwd ac i ryngweithio'n gymdeithasol â nhw yn eu hysgol gartref. Byddai'r 2 ddarpariaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddileu rhwystrau i gynhwysiant parhaus yn yr ysgol brif ffrwd ac yn gwella ei gallu i ddiwallu anghenion addysgol y disgybl yn y dyfodol.

Byddai'r lleoliadau hyn yn cynnig addysg ac ymyriadau arbenigol ochr yn ochr â chyngor, mentora a hyfforddiant i staff o ysgol gartref y disgybl. I hwyluso hyn, byddai aelod o staff o ysgol gartref y disgybl yn mynychu'r Ganolfan gyda'r disgybl 1 diwrnod yr wythnos.

Byddai lleoliadau yn cael eu cytuno am gyfnod penodol o ddau dymor yn y lle cyntaf. Caiff adolygiadau ac asesiadau rheolaidd eu cynnal ar gyfer yr holl ddisgyblion i benderfynu ar y ddarpariaeth addysg fwyaf priodol i fodloni eu hanghenion. Ar ôl cytuno i leoli'r disgybl, byddai'r disgybl yn cael ei gofrestru'n ddeuol yn y ganolfan yn ogystal ag yn ei ysgol gartref. Bydd awdurdod lleol Bro Morgannwg yn paratoi ac yn cynnal Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer pob disgybl sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Ar ôl dau dymor, bydd gwybodaeth asesu yn cael ei hystyried mewn cyfarfod panel yr awdurdod lleol i benderfynu a fydd angen y lleoliad ar y disgybl yn y dyfodol. Rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu dychwelyd i gynhwysiant llawn yn eu hysgol gartref. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen ymestyn y lleoliad yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol ymhellach. Mewn amgylchiadau o'r fath, câi adolygiadau tymhorol eu cynnal i fonitro cynnydd a bydd y panel yn ystyried y canfyddiadau cyn penderfynu ar y ddarpariaeth a'r lleoliad yn y dyfodol.

2.3. PAM RYDYN NI'N CYNNIG Y NEWIDIADAU?

Gwelwyd twf mewn ADY yn ein hysgolion. Yn 2023 nodwyd bod 107 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ag AAA/ADY sydd wedi codi o 88 yn 2022. Ym mhob ysgol gynradd brif ffrwd mae nifer y disgyblion ag AAA/ADY wedi codi o 1,227 yn 2021 i 1,251 yn 2023. Mae data hefyd yn nodi cynnydd mewn disgyblion niwroamrywiol gyda chyflyrau fel awtistiaeth ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, mae tystiolaeth hefyd o gynnydd clir yn y ffaith bod gan blant a phobl ifanc broblemau yn ymwneud â'u datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Nododd adolygiad o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a gynhaliwyd mewn ymgynghoriad â phenaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro, mai dyma'r maes allweddol o angen lle roedd angen darpariaeth fwy arbenigol. Mae Canolfan Adnoddau Iwyddiannus iawn wedi'i sefydlu yn Ysgol Bro Morgannwg o'r blaen ac roedd yn amlwg bod angen canolfan ar gyfer disgyblion sy'n mynychu addysg Gymraeg gynradd yn y Fro hefyd i sefydlu continwmm o ddarpariaeth o 4-18.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018 (Deddf ADYTA 2018) o ran trawsnewid disgwyliaid a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd ag ef sy'n sicrhau bod gan y system newydd gyfres o baramedrau clir y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion, colegau addysg bellach a gwasanaethau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu. Dyma nod y dull gweithredu newydd, fel y nodir yn y Cod: Cefnogi'r broses o greu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa arno a'i fwynhau.

Mae [Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg](#) y Fro (neu'r CSGA) yn nodi ein huchelgeisiau yn hyn o beth ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwasanaeth allgymorth sefydledig ym Mro Morgannwg sy'n rhoi cymorth i ysgolion ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn dilyn dadansoddiad o'r gweithlu, nodwyd bod angen arbenigwyr ychwanegol sy'n siarad Cymraeg ar ysgolion ym meysydd awtistiaeth ac iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol i gynnig cyfnodau o ddarpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol yn gam mawr tuag at ein targedau yn y CSGA.

3. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

3.1. GWYBODAETH AM YR YSGOL

Mae'r adran ganlynol yn trafod goblygiadau posibl y cynnig, gan gynnwys canlyniadau addysgol, cyllid, adnoddau dynol, a thrafnidiaeth.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth am yr ysgolion i helpu i lywio'r goblygiadau posibl hyn. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau diweddaraf Estyn lle maen nhw ar gael, ac asesiadau mewnol o gyflwr adeiladau ac addasrwydd Ysgol Gwaun y Nant.

3.2. CANLYNIADAU ADDYSGOL

SAFONAU A CHYNNYDD

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cynnig cyfnodau o ddarpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol. Byddai'r ganolfan hefyd yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer disgyblion yn ystod amser cinio a gwyliau. Byddai cymorth yn cael ei dargedu i ddiwallu anghenion unigol disgyblion o fewn y Ganolfan. Byddai gwaith arbenigol y ddarpariaeth adnoddau yn dylanwadu ar ymarfer yn y sector cyfrwng Cymraeg, a fyddai o fudd i'r holl staff a disgyblion.

Bydd cynllunio medrus a chreadigol yn sicrhau strwythur clir i wersi ac ystod eang o weithgareddau a dulliau o fewn y Ganolfan. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

Mae strategaethau i nodi a rhannu arfer effeithiol yn llwyddo i wella dysgu ac addysgu yn yr ysgol, er enghraifft, wrth ddatblygu profiadau dilys i ddisgyblion. Nododd adroddiad Arolwg Estyn diwethaf yn 2016 fod perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn naturiol ac yn glir yn y ddwy iaith ac yn mynegi eu syniadau'n glir
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- Mae gan lawer o ddisgyblion sgiliau rhifedd da iawn, gan gynnwys eu gallu i ddefnyddio strategaethau rhif yn effeithiol iawn i ddatrys problemau
- Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.
- Mae athrawon yn cynllunio profiadau a gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn effeithiol
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymraeg yn gyfoethog iawn ac,
 - o ganlyniad, mae gan bron pob disgybl falchder yn eu hiaith, eu gwlad a'u diwylliant
 - Mae gan bob disgybl ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl
 - Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol gydag ethos eithriadol o ofal
 - lle mae perthynas glir o barch a gofal rhwng disgyblion ac oedolion

Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r gweithlu ac yn hynod effeithiol am greu diwylliant ac ethos 'sefydliad dysgu'. Mae rheoli perfformiad canolfannau yn digwydd gan roi ystyriaeth agos i ganlyniadau disgyblion a blaenoriaethau ysgolion. Mae trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol staff ar bob lefel. Mae pob athro yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ystyrlon a chynlluniedig ac yn ymgymryd ag ymchwil gweithredu buddiol.

LLESANT AC AGWEDDAU AT DDYSGU

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cynnig cyfnodau o ddarpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu ymreoleiddio sylweddol mewn amgylchedd diogel, arbenigol. Mae mynediad at ardal awyr agored yn bwysig; byddai plant ag ADY angen lle i grwydro ac ymdawelu er mwyn bod mewn cyflwr parod i ddysgu. Mae darparu gofod awyr agored yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth gyffredinol o fewn yr Ganolfan a byddai gan ddisgyblion fynediad at yr ardal awyr agored sydd newydd ei datblygu drwy gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae oedolion sy'n chwarae ochr yn ochr â'r plant yn yr amgylchedd hwn yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ymreoleiddio a datblygu sgiliau chwarae ac iaith. Byddai amrywiaeth o weithgareddau awyr agored ar gael.

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2016, nododd Estyn fod bron pob disgybl wedi ymddwyn yn eithriadol o dda yn Ysgol Gwaun y Nant yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Maent yn groesawgar, yn gwrtais ac yn trin ei gilydd, yn staff ac ymwelwyr gyda pharch gwirioneddol. Mae hyn yn gryfder drwy gydol yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd ato os yw'n teimlo'n bryderus.

PROFIADAU DYSGU AC ADDYSGU

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gwaun y Nant yn darparu amgylchedd dysgu arbenigol, gan gynnwys gwell seilwaith TGCh, ardaloedd ymneilltuo cydweithredol, a chylchrediad effeithiol. Byddai hyn yn galluogi amgylchedd addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr yn well. Datblygwyd y cyfleuster hwn fel rhan o Grant Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai'r GAA newydd arfaethedig yn caniatáu ar gyfer datblygu cwricwlwm sy'n llawn profiadau cyfoethog sy'n herio plant, yn codi cyrhaeddiad ac yn cefnogi lles disgyblion.

Mae ADY y plant sy'n mynychu'r GAA yn golygu bod angen mynediad at ddysgu drwy brofiad a sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae gallu darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu drwy chwarae yn hanfodol.

GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r staff yn creu amgylchedd cynnes a chroesawgar. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwallu anghenion bron pob disgybl. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn fuddiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu disgyblion i drin eraill â pharch.

ARWAIN A RHEOLI

Byddai'r uned yn cael ei rheoli'n ganolog gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Medrau. Bydda'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau'n cydweithio â phennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Gwaun y Nant i sicrhau bod y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn gallu gweithredu o fewn fframwaith yr ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu disgyblion llwyddiannus ac uchelgeisiol mewn amgylchedd gofalgwr a chynhwysol. Mae'r weledigaeth hon wedi'i rhannu'n llwyddiannus gyda staff, disgyblion, rhieni, a'r corff llywodraethu. Mae staff yn cefnogi'r pennaeth yn fedrus ac mae ethos o waith tîm i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda. Mae hon yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

3.3. DARPARIAETH GYMRAEG

Mae Rhaglen Buddsoddi Mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n ceisio sicrhau y gellir bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr hirdymor. Yn unol â strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chyfrannu at ei tharged uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae datblygu ymhellach adnoddau arbenigol

cynradd cyfrwng Cymraeg yn ffocws cryf i'r gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau a sbardun allweddol ar gyfer y cynnig hwn.

3.4. DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Byddai effaith gadarnhaol o ran ADY gan y byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cynnig cyfnodau o ddarpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion y mae eu lefel uchel o orbryder yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gael mynediad at addysg prif ffrwd.

- Un o rolau allweddol y Ganolfan Adnoddau Arbenigol fyddai helpu i weithredu polisiâu a gweithdrefnau yn yr ysgol i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i Ysgol Uwchradd Whitmore.
- Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ac effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth yn dda i ddwyn athrawon i gyfrif trwy gyfarfodydd cynnydd tymhorol. Mae ffocws cryf iawn ar godi cyflawniad pob disgybl, gan gynnwys dysgwyr agored i niwed. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i gefnogi dysgwyr agored i niwed. Mae'r ysgol wedi paratoi staff yn dda ar gyfer y newidiadau o dan y Ddeddf ADY newydd.

3.5 MEINI PRAWF MYNEDIAD Y GANOLFAN ADNODDAU CYFRWNG CYMRAEG

I gael mynediad at y Ganolfan Adnoddau Arbenigol, rhaid cael disgrifiad clir o anawsterau'r disgybl.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r disgybl:

1 A Fod wedi cael diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig fel ei brif angen gan weithiwr iechyd proffesiynol yn y GIG neu;

1 B Bod ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio, gorbryder neu reoleiddio sylweddol wedi'u nodi fel ei brif angen neu;

2 Cael ei nodi'n ddisgybl sydd ag angen dysgu ychwanegol sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Caiff Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ei chynnig i ddysgwyr sy'n cael llawer mwy o anhawster i ddysgu na'r mwyafrif o ddysgwyr eraill o'r un oedran neu sydd ag anabled at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i ddysgwyr eraill o'r un oedran mewn lleoliadau prif ffrwd a gynhelir. Maent yn debygol o ddangos anghenion

parhaus lluosog neu sylweddol na ellir eu bodloni o fewn y Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol ac yn parhau i ddangos angen sylweddol er gwaethaf ymyrraeth gynnar.

Bydd angen i'r dystiolaeth ddangos y canlynol:

- Mae'r plentyn/person ifanc wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau am ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn yr ysgol, a cheisiwyd a gwrandwyd ar ei farn a'i ddymuniadau yn briodol.
- Mae'r plentyn/person ifanc wedi bod yn rhan o baratoi ac adolygu ei Gynllun Addysg/Ymddygiad/Chwarae/Datblygu Unigol ac mae ymdrechion clir wedi'u gwneud i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn deall pwrpas yr holl ymyriadau a chefnogaeth.
- Mae'r rhieni/gofalwyr wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o gynllunio Cynllun Datblygu Unigol a darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn.
- Mae'r rhieni wedi cael gwybodaeth briodol am bwrpas yr ymyriadau a'r gefnogaeth.
- Gofynnwyd am ymgynghoriad ynghylch y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol briodol gan y gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau cynghori perthnasol.
- Mae'r ysgol wedi paratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol, gan gynnwys amcanion priodol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol gysylltiedig, sydd wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn gadarn mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i gefnogaeth.

Mae tystiolaeth o:

- Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel;
- Ymyriadau wedi'u targedu sy'n briodol i gefnogi amcanion unigol y plentyn;
- Adolygiadau o dargedau ac effaith ymyriadau;
- Gwerthusiadau.

3 Byddai'n elwa ar gyfnod o gefnogaeth ddwys integredig mewn amgylchedd wedi'i addasu am un neu fwy o'r rhesymau canlynol, i:

- A. Ddatblygu sgiliau cyfathrebu cymdeithasol.
- B. Datblygu sgiliau rhyngweithio cymdeithasol a meddwl hyblyg.
- C. Dysgu sut i ddefnyddio cefnogaeth addysgu strwythuredig.
- D. Dysgu sut i ddefnyddio strategaethau hunanreoleiddio

4 Rhaid bod Panel Lleoli'r Awdurdod Lleol wedi cytuno ar y lleoliad.

Canolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg

Meini Prawf Ymadael.

Bydd lleoliadau yn cael eu cytuno am gyfnod penodol o ddau dymor yn y lle cyntaf. Caiff adolygiadau ac asesiadau rheolaidd eu cynnal ar gyfer yr holl ddisgyblion i benderfynu ar y ddarpariaeth addysg fwyaf priodol i fodloni eu hanghenion.

Ar ôl y lleoliad cychwynnol, bydd gwybodaeth asesu yn cael ei hystyried mewn cyfarfod panel awdurdod lleol i benderfynu a fydd angen y lleoliad ar y disgybl yn y dyfodol. Bydd rhai disgyblion yn gallu dychwelyd i gynhwysiant llawn yn eu hysgol gartref ar ôl hyn.

1.1. EFFAITH AR YSGOLION ERAILL

Bydd creu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill gan y bydd yn darparu adnodd ychwanegol yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol eu staff. Mae Deilliant 6 ein [CSCA](#) yn ymrwmo i gynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Byddai'r cynnig hwn, pe bai'n llwyddiannus, yn gam sylweddol tuag at gyrraedd ein targedau yn y CSGA.

1.2. TREFNIADAU DERBYN

Byddai'r holl fynediad at y GAA yn Ysgol Gwaun y Nant yn digwydd drwy Banel yr Awdurdod Lleol.

1.3. TIR AC ADEILADAU

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn ysgol 2 ddosbarth mynediad sydd â chyfanswm capasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 195 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol gydag 14 ystafell ddosbarth ar gael yn gyffredinol. Oherwydd y capasiti dros ben yn yr ysgol, nid yw pob ystafell ddosbarth yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Byddai'r GAA yn meddiannu ystafell ddosbarth wag yn yr ysgol. Gan nad yw'r ystafell hon yn cael ei defnyddio gan ddisgyblion ar hyn o bryd, nid ystyrir y bydd hyn yn amharu ar eu hamgylchedd dysgu.

Adeiladwyd Ysgol Gwaun y Nant yn wreiddiol yn y 1960au gydag adeiladau ychwanegol yn cael eu hychwanegu yn ddiweddarach. Canfu arolwg cyflwr a gynhaliwyd yn 2022 fod yr adeiladau mewn cyflwr boddhaol (categori B). Cynhaliwyd ailfodelu ac ailaddurno'r amgylchedd dysgu a nodwyd ar gyfer y GAA yn 2023.

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn elwa o ystafelloedd dosbarth o faint addas, prif neuadd ar gyfer chwaraeon a bwyta, swyddfeydd ar gyfer penaethiaid a gweinyddiaeth, ystafell staff, a meysydd rhannu allan ar gyfer ymyriadau disgyblion. Mae'r ysgol wedi'i ffensio i ddiogelu disgyblion ac mae mynediad intercom i ymwelwyr.

Byddai gan y Ganolfan Adnoddau Arbenigol fynediad at ofod awyr agored. Byddai'r staff yn defnyddio'r ystafell staff bresennol yn Ysgol Gwaun y Nant i helpu i feithrin cysylltiad cryf rhwng y GAA a'r ysgol ehangach, gan wella integreiddio.

Byddai'r lleoliad arfaethedig yn darparu:

- Amgylchedd dysgu yn llawn TG o ansawdd uchel i ddisgyblion sy'n diwallu anghenion cwricwlwm addysgol y 21^{ain} Ganrif
- Cyfleusterau awyr agored i ddisgyblion ADY
- Darpariaeth arbenigol i ddarparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn y ffordd orau

1.4. CYLLID

CYLLID CYFALAF

Nid oes angen cyllid cyfalaf i sicrhau bod y llety a nodwyd yn addas gan fod gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau yn sgil adnabod y lle fel un y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth ADY fel rhan o Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nid yw gweithredu'r cynnig yn gofyn am ddiwygiadau pellach i adeilad Ysgol Gwaun y Nant.

CYLLID REFENIW

Y cyllid ar gyfer y GAA ar gyfer 24/25 yw £162,004 ac mae'n cael ei ddal yn ganolog yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau. Mae hyn yn ariannu un athro llawn amser ynghyd ag un Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch ac un cynorthwy-ydd cymorth dysgu llawn amser. Bydd yr ysgol hefyd yn derbyn £11,000 drwy'r fformiwla ariannu prif ffrwd sy'n talu costau ychwanegol mewn perthynas â'r disgyblion o fewn y GAA fel adnoddau.

Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod costau trafndiaeth i'r GAA oddeutu £20,000 i £27,000 y flwyddyn. Gall costau trafndiaeth amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar gyfeiriad cartref y disgyblion sy'n mynychu'r GAA felly ni ellir rhagweld costau cludiant yn gywir yn y tymor hir. Gall disgyblion fynychu'r GAA o bob rhan o Fro Morgannwg.

1.5. ADNODDAU DYNOL

Mae darpariaeth beilot wedi dechrau yn Ysgol Gwaun y Nant er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â datblygu cymorth arbenigol cyfrwng Cymraeg ADY. Byddai creu CAA newydd yn gofyn am barhau â'r trefniadau staffio hyn.

Byddai'r uned yn cael ei rheoli'n ganolog gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Medrau. Byddai'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau'n cydweithio â phennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Gwaun y Nant i sicrhau bod y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn gallu gweithredu o fewn fframwaith yr ysgol.

Byddai ardal y GAA yn Ysgol Gwaun y Nant yn lletya hyd at 16 o ddysgwyr. Bwriedir sefydlu'r ganolfan o fis Medi 2024. Byddai staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth beilot yn parhau i gefnogi dysgwyr o fewn y GAA.

Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

1.6. TRAFNIDIAETH A THREFNIADAU TEITHIO I DDYSGWYR

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafndiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008'.

Darperir trafndiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oed ysgol gynradd brif ffrwd os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.

Bydd y Tîm ADY yn penderfynu ar gymhwysedd disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl mesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Rhoddir ystyriaeth i drafndiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion ADY sy'n byw o fewn 2 filltir ar sail unigol, gan gydymffurfio ag Adran 9 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gan sicrhau tegwch a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu anghyfreithlon rhwng dysgwyr. Gwneir y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â'r holl bartion perthnasol. Os na all disgybl gerdded i'r ysgol (naill ai gyda chymorth oedolyn priodol neu'n annibynnol yn dibynnu ar ei oedran/gallu) oherwydd natur ei anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, bydd y Cyngor yn darparu trafndiaeth am ddim rhwng y cartref a'r ysgol hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r terfyn statudol. Y Tîm Trafndiaeth Teithwyr fydd yn gwneud y penderfyniad ar hyn ar y cyd ag

ysgolion a'r Tîm Anghenion Cymhleth. Os yw'n bosibl, ac os bydd y dysgwr, y rhiant/gofalwr, yr ysgol a'r Tîm Gwella a Chynhwysiant yn cytuno, gellir cynnig darpariaeth cynorthwydd teithwyr yn lle trafndiaeth i alluogi'r disgybl i gyrraedd yr ysgol yn annibynnol. Mae hyn yn hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ac yn annog byw'n annibynnol yn ogystal ag iechyd a lles.

2. YSTYRIAETHAU ERAILL

2.1. MANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYM HARU Â'R STATUS QUO

Mae'r Cyngor:

- Yn rhoi cymorth targedig i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol mewn amgylchedd ysgol gynradd brif ffrwd.
- Yn cynnig amgylchedd dysgu gwell a fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ym mhob un o'n Hysgolion Cynradd.
- Yn sicrhau y gall anghenion disgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol gael eu diwallu o fewn yr awdurdod lleol a gellir eu cefnogi i aros yn eu hysgol brif ffrwd.

2.2. ANFANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYM HARU Â'R STATUS QUO

- Gellir tarfu ar reoli staff ac adnoddau wrth weithredu'r cynnig. Gan fod y ganolfan eisoes yn gweithredu fel prosiect peilot, byddai hyn yn fach iawn.
- Bydd rhai disgyblion yn cael teithio ymhellach i'r ganolfan newydd nag i'w hysgol gartref.

2.3. RISGIAU POSIBL Y CYNNIG HWN A MESURAU I LINIARU'R RISGIAU A NODWYD

Risg	Lliniaru
Darpariaeth arbenigol annigonol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY.	Byddai'r GAA yn darparu capasiti ychwanegol i 16 disgybl. Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol newydd yn cynnig amgylchedd dysgu arbenigol i roi darpariaeth integredig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistig a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu ymreoleiddio sylweddol. Mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Gwaun y Nant yn addas ar gyfer dysgu yn yr 21ain ganrif.

2.4. ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori.

Proses sy'n astudio polisi neu gynllun yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu'n anffafriol yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

2.5. ASESIAID O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i bennu unrhyw effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn eu cael ar y gymuned leol.

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 5 o'r 8 mesur a aseswyd ac effaith bositif ar 3 o'r 8 mesur. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn rhoi cymorth targedig i ddisgyblion sydd â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol mewn amgylchedd ysgol gynradd brif ffrwd addas er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu llawn botensial. Yn ogystal, byddai gan ddisgyblion a staff amgylchedd dysgu gwell a fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Daeth i'r casgliad o'r Asesiad Effaith ar y Gymuned y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

2.6. CYFRANIADAU I LESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gofyn i'r Cyngor feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tloedi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod Llesiant ar waith a phum ffordd o weithio sy'n gorfod llywio prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

Arfarnwyd y cynnig o ran sut mae'n cyfrannu at gyflawni dyheadau'r Ddeddf, y nodau llesiant, a'r ffyrdd o weithio. Nid yw hyn yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori statudol ond fe'i hystyriwyd yn fuddiol i gyflawni ysbryd y Ddeddf.

2.7. DEWISIADAU AMGEN ERAILL A YSTYRIWYD

OPSIWN 1: PEIDIO A CHREU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL A PHARHAU I DDARPARU CYMORTH I DDISGYBLION YN EU HYSGOL GARTREF.

Pam gwrthodwyd yr opsiwn hwn?

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddatblygu model newydd ar gyfer darparu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar angen a nodwyd fel rhan o'i dargedau CSGA. Ni fyddai methu â chyflawni'r ymrwymiad hwn er budd gorau'r disgyblion y byddai'r GAA yn cael ei ddylunio i'w cynorthwyo ac ni fyddai'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol yn y sector Cynradd cyfrwng Cymraeg.

OPSIWN 2: SEFYDLU CAA MEWN YSGOL ARALL YM MRO MORGANNWG.

Pam gwrthodwyd yr opsiwn hwn?

Adolygwyd ysgolion posib eraill. Fodd bynnag, nid oedd gan yr ysgolion hyn naill ai'r lle i ddarparu ar gyfer y GAA neu byddent wedi gofyn am gost gyfalaf helaeth i ddarparu'r GAA ar y safle. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad mai Ysgol Gwaun y Nant oedd yr opsiwn mwyaf cost-effeithiol a oedd yn darparu cyfleusterau gwell ac amgylchedd dysgu gwell.

3. Y BROSES YMGYNGHORI STATUDOL

Tabl 1: Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol

Camau	Disgrifiad
Cam 1: Datblygu cynnig	Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn amlinellu pryd mae angen y weithdrefn statudol.
Cam 2: Ystyriaeth y Cabinet	Cabinet y Cyngor i ystyried y cynnig a chymeradwyo ymgynghori.
Cam 3: Ymgynghoriad	<p>Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae'n rhaid i randdeiliaid a nodwyd yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu drwy lythyr/e-bost.</p> <p>Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau rhwng 10 Ebrill a 22 Mai 2024. Gweler tudalen 24 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.</p> <p>O fewn 13 wythnos ar ôl dydd Gwener 22 Mai 2024, caiff adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymatebion i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.</p> <p>Ym mis Mehefin 2024, bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen i'r camau nesaf ai peidio. Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig bydd rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol.</p>
Cam 4: Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad	Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ystyried a bydd adroddiad ymateb yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno er ystyriaeth gan y Cabinet.

Cam 5: Ystyriaeth y Cabinet	Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad yr ymateb i'r ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a chymeradwyo cyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol.
Cam 6: Hysbysiad statudol	Mae'n rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac fel yr amlinellir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a'i osod yn neu'n agos i brif fynedfa'r ysgol. Byddai copïau o'r hysbysiad yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff. Gallai'r ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad trwy e-bost. Byddai'r hysbysiad yn amlinellu manylion y cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn y cyfnod penodol.
Cam 7: Cyfnod gwrthwynebu	Mae unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig yn cael cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu ar e-bost, a'u hanfon at y cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad.
Cam 8: Adroddiad gwrthwynebu	O dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fydd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn, mae'n rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigiwr i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu").
Cam 9: Ystyriaeth y Cabinet	Mae'r Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebiadau er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. Y Cyngor fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Gallai'r Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol sydd wedi dod i law.
Cam 10: Llythyr penderfyniad	Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd yr adroddiad gwrthwynebiadau yn cael ei roi i randdeiliaid. Ar ôl asesu'r cynigion, câi pob parti â diddordeb ei hysbysu o'r penderfyniad a gaiff ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

3.1. DYDDIADAU ALLWEDDOL

Caiff adborth o'r ymgynghoriad addysg hwn ei gasglu a'i grynhoi a bydd adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Hefyd gellir gwneud cais am gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae rhagor o gamau y bydd rhaid i'r Cyngor eu cyflawni cyn gwneud penderfyniad terfynol. Rhestrir y camau hyn isod:

Tabl 2: Dyddiadau allweddol y broses

Proses Statudol	Amserlen
Cyhoeddi dogfen ymgynghori	10 Ebrill 2024
Dyddiad cau i gyflwyno barn ar y cynigion	22 Mai 2024
Yr adroddiad ymgynghori i gael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor.	Mehefin 2024
Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, cyflwyno hysbysiad statudol i wahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol	Mehefin 2024
Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol	Mehefin/Gorffennaf 2024
Penderfyniad Cabinet gyda'r adroddiad gwrthwynebiadau.	Gorffennaf 2024
Hysbysiad o'r penderfyniad	Gorffennaf 2024
Cynnig wedi'i weithredu	Medi 2024

Mae'n bosibl y bydd yr amserlen arfaethedig yn newid.

4. CWESTIYNAU CYFFREDIN

Beth yw amserlen arfaethedig y cynnig?

Disgwylir i'r gwaith o greu CAA yn barhaol yn adeilad Ysgol Gwaun y Nant gael ei gwblhau erbyn Medi 2024.

Sut byddai disgyblion yn cael lle yn y GAA?

Byddai'r Cyngor yn rhoi lleoedd i ddisgyblion yn y GAA mewn ymgynghoriad ag arweinwyr y GAA yn Ysgol Gwaun y Nant. Byddai hyn yn seiliedig ar asesiad o anghenion unigol y disgyblion.

Pwy fyddai'n rheoli ac yn cynorthwyo dysgwyr sy'n mynychu'r GAA?

Byddai Ysgol Gwaun y Nant yn derbyn arian ychwanegol ar gyfer y GAA er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol ar gael. Byddai'r athro arbenigol a'r staff cymorth, ynghyd â chydlynwyr ADY o'r ysgol gofrestredig prif ffrwd y disgybl, yn rhoi cymorth i ddysgwyr sy'n mynychu'r GAA. Pwrpas y GAA yw darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i addysg prif ffrwd.

Sut bydd disgyblion yn teithio i safle newydd y GAA?

Darperir trafndiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oed ysgol gynradd brif ffrwd os ydynt yn byw 3 filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.

Fodd bynnag, bydd disgyblion ADY sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu diwallu ag addasiad rhesymol ar drafnidiaeth prif ffrwd yn gymwys i gael trafndiaeth am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl mesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn cefnogi teithio i'r ysgol drwy ddulliau teithio llesol fel cerdded a beicio lle bo hynny'n bosib. Byddai hyn yn ymestyn i ddisgyblion ADY lle bo hynny'n briodol.

A fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion presennol Ysgol Gwaun y Nant?

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn ysgol 2 ddsbarth mynediad sydd â chyfanswm capasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 195 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol gydag 14 ystafell ddsbarth ar gael yn gyffredinol. Oherwydd y capasiti dros ben yn yr ysgol, nid yw pob ystafell ddsbarth yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Câi'r GAA ei lleoli mewn ystafell ddsbarth wag yn yr ysgol. Gan nad yw'r ystafell hon yn cael ei defnyddio gan ddisgyblion ar hyn o bryd, nid ystyrir y bydd hyn yn amharu ar eu hamgylchedd dysgu.

Ar ben hynny, bydd y GAA yn cael ei hymgorffori yng ngweithrediadau Ysgol Gwaun y Nant gan alluogi staff i rannu gwybodaeth a helpu i wella arfer gorau yn yr ysgol. At ei

gilydd, bydd cynnwys y GAA yn Ysgol Gwaun y Nant o fudd i staff a disgyblion yn y tymor hir.

Bydd unrhyw Gwestiynau Cyffredin pellach a ofynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at dudalen we yr ymgynghoriad.

5. CYNNWYS RHANDDEILIAID AC YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu barn am y cynigion hyn.

Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â diddordeb fynegi eu barn a'u safbwyntiau ar y cynigion hysbys i alluogi'r Cabinet i ystyried y safbwyntiau hyn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori gyda'r grwpiau canlynol:

Tabl 3: Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori

Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gwaun y Nant	Corff Llywodraethu Ysgol Gwaun y Nant
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid Plant ym mhob Ysgol Gynradd Gymraeg	Cyfarwyddwyr Addysg - yr Holl Awdurdodau Cyfagos
Cynghorau Tref a Chymuned	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP) Bro Morgannwg
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol	Cynghorwyr Lleol
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Comisiynydd y Gymraeg
Estyn	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ym Mro Morgannwg
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol	Undebau Llafur

5.1. CYNNWYS PLANT YN YR YMGYNGHORIAD

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod Cynghorau'n gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r GAA. 'Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion o bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg gael cyfle i fynegi eu barn ynghylch y cynnig hwn.

Y bwriad yw cynnal gweithdy ymgynghori gyda disgyblion i gofnodi eu barn am y cynnig. Caiff y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Caiff yr adroddiad llawn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

5.2. SUT GALLWCH GANFOD MWY A RHANNU EICH BARN

MWY O WYBODAETH...

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon a mwy o wybodaeth ategol ar dudalen [Ymgynghoriadau Ysgolion](#) Bro Morgannwg.

Gellir dod o hyd i unrhyw ddiweddariadau hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar **01446 709828** neu sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk am fwy o wybodaeth am y cynnig.

RHOWCH EICH BARN I NI

Cynhelir cyfnod ymgynghori hwn **rhwng 10 Ebrill a 22 Mai 2024**. Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch roi gwybod i ni.

Gallwch:

- Gwblhau ffurflen ymateb ar-lein yn:
[Cynnig i Greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant](#)

Neu

- Gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i:

Creu Canolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn

Y Barri
CF63 4RU

Noder, dylai'r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 22 Mai 2024. Yn anffodus ni all y Cyngor ystyried ymatebion sy'n dod i law wedi'r dyddiad hwn.

Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir gennym yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn iddo benderfynu a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol am y cynigion.

Ni fydd ymatebion a dderbynnir gan ymgynghoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod rhybudd statudol pe bai'n cael ei gymeradwyo ar y cam nesaf gan GAAinet y Cyngor. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad ar gam nesaf y broses, os bydd yn mynd yn ei flaen, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r dyddiadau allweddol hyn wedi'u hamlinellu o dan [Adran 5](#).

6. FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich barn gyda ni trwy wneud un o'r canlynol:

- cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn:

Cynnig i Greu [Canolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant](#)

neu

- ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ac **ychwanegu eich sylwadau ar y ffurflen hon**

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad post canlynol:

Creu Canolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg

Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

Cyngor Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig,

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

Y dyddiad cau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 22 Mai 2024. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er bydd y Cyngor yn eu hystyried wrth wneud ei benderfyniad. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.

Nodwch y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd rhaid gwneud y rhain yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu unigolyn, megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei dileu.

Eich Enw Llawn	
Cod Post:	

Dwedwch wrthym a ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):				
Rhiant neu Warcheidwad*		Nain/Taid*		Disgybl*
Aelod o staff**		Llywodraethwr*		Preswylydd Lleol
Arall (rhowch fanylion)				

*A fydddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?	
---	--

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i adleoli addysg arbenigol drwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023?				
Ydw		Nac ydw		Dim barn y naill ffordd na'r llall
Esboniwch pam:				

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.


3. Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch i chi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon i Gyngor Bro Morgannwg dim hwyrach na **22 Mai 2024**.

Os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr ymgynghoriad ar e-bost neu drwy'r post, nodwch y manylion perthnasol isod.

Hoffwn gael fy hysbysu drwy: (Dilëwch fel y bo'n briodol)	E-bost / Post
Cyfeiriad e-bost:	
Cyfeiriad post:	



7. FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB BRO MORGANNWG

Rhywedd a Hunaniaeth Rhywedd				
Beth yw eich rhywedd?		<input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> Gwryw		
Ar eich genedigaeth, sut cawsoch eich disgrifio?		<input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> Gwryw <input type="checkbox"/> Rhyngrywiol <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Anabledd				
A oes cyfyngiadau ar eich gweithgareddau bob dydd oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy?		<input type="checkbox"/> Oes - cyfyngiadau mawr <input type="checkbox"/> Oes - rhywfaint o gyfyngiadau <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Oedran				
Beth yw eich dyddiad geni?				
Hunaniaeth Genedlaethol				
Hunaniaeth Genedlaethol – sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?				
<input type="checkbox"/> Cymru	<input type="checkbox"/> Seisnig	<input type="checkbox"/> Albanaidd	<input type="checkbox"/> Gogledd Iwerddon	<input type="checkbox"/> Prydeinig
<input type="checkbox"/> Arall (nodwch)		<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Grŵp Ethnig				
Ethnigrwydd – sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?				

Gwyn			
<input type="checkbox"/> Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig		<input type="checkbox"/> Gwyddelig	
<input type="checkbox"/> Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch):		
Grwpiau cymysg/aml-ethnig			
<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Caribiaidd	<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/> Gwyn ac Asiaidd	
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir cymysg/aml-ethnig arall (nodwch):			
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig			
<input type="checkbox"/> Indiaidd	<input type="checkbox"/> Pacistanaidd	<input type="checkbox"/> Bangladeshaidd	<input type="checkbox"/> Tsieineaidd
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch):			
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig			
<input type="checkbox"/> Affricanaidd		<input type="checkbox"/> Caribiaidd	
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribiaidd arall (nodwch):			
Grŵp ethnig arall			
<input type="checkbox"/> Arabaidd			
<input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch):			
<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud			

Y Gymraeg

Disgrifiwch eich sgiliau Cymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod:

	Deall	Siarad	Darllen	Ysgrifennu
Dim	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylfaenol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymwys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Da	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhugl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Hunaniaeth Rywiol

Pa un neu rai o'r opsiynau hyn sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun?

Heterorywiol / syth

Hoyw neu lesbiaidd

Deurywiol

Arall

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Crefydd

Beth yw eich crefydd?

Dim crefydd

Cristion (pob enwad)

Bwdhydd

Hindŵ

Iddew

Mwslim

Sîc

Unrhyw grefydd arall (nodwch):

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf?

Ydw

Nac ydw

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Ydych chi wedi cymryd cyfnod mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf?

Ydw

Nac ydw

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Priodas a Phartneriaeth Sifil

<p>Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw?</p>	<ul style="list-style-type: none"><input type="checkbox"/> Sengl - hynny yw, heb briodi erioed a heb gofrestru mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw erioed<input type="checkbox"/> Priod ac yn byw gyda gŵr/gwraig<input type="checkbox"/> Wedi gwahanu ond yn dal yn briod yn gyfreithiol<input type="checkbox"/> Wedi ysgaru<input type="checkbox"/> Gweddw<input type="checkbox"/> Mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw ac yn byw gyda'ch partner<input type="checkbox"/> Wedi gwahanu ond yn dal mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfreithiol<input type="checkbox"/> Mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw gynt sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol<input type="checkbox"/> Partner sy'n fyw o bartneriaeth sifil o'r un rhyw<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud
--	---